



POLISI PROFEDIGAETH A CHOLLED

Ysgol Syr Hugh Owen

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Dyddiad Cymeradwyo: 06/11/2025

Dyddiad Adolygu: 06/11/2028

CYNNWYS:

1. Cyflwyniad
2. Rolau a Chyfrifoldebau
3. Cwricwlwm
4. Gweithdrefnau
5. Cefnogaeth i Ddisgyblion mewn profedigaeth
6. Effeithiau Sylfaenol
7. Effeithiau Eilaidd
8. Ymatebion Defnyddiol gan Staff
9. Cynnig Ysgol
10. Gweithdrefnau ar Ddysgu Disgyblion y mae Gwahanu / Ysgariad Rhiant / Gofalwr yn effeithio arno
11. Cyfrinachedd
12. Cynhwysiant a Chydraddoldeb
13. Ymateb i'r Cyfryngau
14. Cefnogaeth a Hyfforddiant Staff
15. Monitro a Gwerthuso
16. Cysylltiadau â Pholisïau Eraill
17. Gwybodaeth a Ffynonellau Cymorth

1) Cyflwyniad:

- 1.1 Mae Ysgol Syr Hugh Owen wedi ymrwymo i iechyd a lles emosiynol ei staff a'i disgyblion. Rydym yn gweithio tuag at hyn ym mhob agwedd o fywyd ysgol, gan geisio darparu ethos, amgylchedd a chwricwlwm sy'n cefnogi aelodau o gymuned yr ysgol i ymdopi â cholli rhywun annwyl trwy wahanu neu farw. Mae profedigaeth a cholled yn effeithio ar bawb ar ryw adeg ac, fel cymuned agos, nod ein hysgol yw darparu'r gefnogaeth orau i'w haelodau yn ystod amseroedd o'r fath.
- 1.2 Mae'r polisi hwn yn rhoi arweiniad ar sut i ddelio â materion anodd yn broffesiynol, yn sensitif ac yn dosturiol mewn amgylchiadau annifyr. Mae'n amlinellu'r egwyddorion a'r gweithdrefnau sylfaenol sy'n sail i'n hymagwedd. Mae hyfforddiant staff yn darparu dealltwriaeth o'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â phrofedigaeth a cholled, gan alluogi'r ysgol i wneud yr hyn a all i ddiwallu anghenion y rhai sydd mewn profedigaeth.
- 1.3 Cydnabyddir bod pob profiad o brofedigaeth a cholled, a'r amgylchiadau y mae'n digwydd ynddynt, yn unigryw. Felly, rhaid i'r canllawiau a ddatblygir ystyried amgylchiadau unigol a dymuniadau'r rhai sy'n ymwneud agosaf.
- 1.4 Mae'r polisi hwn yn amlinellu mesurau ymarferol i'w cymryd pan fydd pobl mewn sioc, neu'n cynhyrfu, yn enwedig gyda marwolaethau sydyn, neu luosog, neu amgylchiadau trawmatig.
- 1.5 Mae'n bwysig bod disgyblion yn cael eu cynorthwyo i ddeall profedigaeth mewn ffyrdd clir a diamwys, ac yn cael cyfleoedd i brofi'r ystod lawn o emosiynau a allai fynd gydag ef mewn awyrgylch diogel a chefnogol. Fel ysgol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogaeth hirdymor i'r rhai sydd mewn profedigaeth, a byddwn yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd i gofio lle bo hynny'n briodol.
- 1.6 COVID 19 - Mae achosion o Covid-19 yn golygu bod llawer o agweddau ar fywydau disgyblion yn newid. Mae'r ysgol wedi bod ar gau am gyfnodau, mae llawer o rieni'n gweithio gartref, ac mae teuluoedd yn gorfod treulio amser ar wahân pan hoffent fod gyda'i gilydd. Mae'r newyddion yn llawn sôn am y firws a'r effaith y mae'n ei chael.
- 1.7 Bydd gan lawer o ddisgyblion gwestiynau a phryderon am y firws, ond gallai'r rhai sydd wedi profi marwolaeth rhywun pwysig neu salwch aelod o'r teulu fod yn arbennig o bryderus.
- 1.8 Mae ein hysgol mewn sefyllfa i helpu disgyblion i archwilio a datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o farwolaeth, yn ogystal â chefnogi'r rhai y mae'n bersonol yn effeithio arnynt. Rhan bwysig o hyn yw'r gallu i gefnogi disgyblion, teuluoedd, a staff ar adegau o golled a phrofedigaeth, ynghyd â helpu disgyblion i gefnogi eu cyfoedion, gan leihau'r ymdeimlad o unigedd a all fod yn rhan ohono.
- 1.9 Trwy ddarparu cwricwlwm sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael â cholled, marwolaeth, profedigaeth a galar gallwn wella sgiliau disgyblion a phobl ifanc i ddelio â nhw ac ymddangos yn gadarnhaol ohonynt.
- 1.10 Mae'r polisi ar gyfer pob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys asiantaethau sy'n gweithio gyda ein hysgol. Mae pob agwedd ar ddiogelu wedi'i hymgorffori ym mywyd ein hysgol ac yn gyfrifoldeb yr holl staff.

Nodau:

Ein nôd yw:

- Cefnogi pawb sydd wedi'u heffeithio gan golled a marwolaeth mewn amgylchedd cefnogol a gofalgwr lle gall pawb ymateb yn briodol i amgylchiadau unigol;
- Cynnig dealltwriaeth o effaith colled a galar ar iechyd corfforol ac emosiynol disgyblion;
- Cael mewnwelediad i ymatebion disgyblion / staff i golled a galar a sut mae ein hysgol yn ymateb i ddiwallu anghenion disgyblion, rhieni a staff sy'n galaru;
- Darparu cefnogaeth fugeiliol i ddisgyblion, rhieni a staff.

2) Rolau a Chyfrifoldebau:

2.1 Pennaeth:

Bydd gan y Pennaeth gyfrifoldeb cyffredinol am gefnogaeth a chyswllt os bydd marwolaeth neu golled drawmatig. Os yw'r Pennaeth yn absennol yna bydd y Dirprwy Bennaeth Cynhwysiad ac aelodau'r UDRh yn cymryd cyfrifoldeb.

Y cyfrifoldebau hyn yw:

- Gweithredu'r polisi a myfyrio ar ei effeithiolrwydd yn ymarferol
- Defnyddio'r arbenigedd yn yr ysgol a rhannu'r cyfrifoldebau
- Cydlynu'r camau arfaethedig i reoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r ysgol
- Penderfynu pwy fydd yn gyfrifol am gyfathrebu ac ymwneud yn uniongyrchol â'r teulu
- Penderfynu pwy sy'n rhoi newyddion i gymuned yr ysgol ac, os oes angen, pwy fydd yn cyfathrebu â'r cyfryngau
- Sefydlu a chydlynu cysylltiadau ag asiantaethau allanol
- Cydgordio a cyfathrebu effeithiol yn yr ysgol
- Mynediad a chydlynu hyfforddiant a chefnogaeth i staff

Bydd y person sy'n gyfrifol yn ystyried y gefnogaeth tymor byr ganlynol:

- Pwy ddylai dorri'r newyddion am farwolaeth
- Beth yn union fydd y disgyblion yn cael gwybod
- Sut y byddan nhw'n cael gwybod (i.e yn ôl grŵp neu unigolyn)
- Pryd y byddan nhw'n cael gwybod
- Sut y bydd y wybodaeth yn cael ei chyfleu i rieni a staff
- Pa gwestiynau y gallai disgyblion, staff a rhieni eu gofyn
- Pa gysylltiadau fydd yn cael eu gwneud gyda'r teulu
- Ystyried beth fydd yn briodol wrth gynnal rhyw fath o weithgaredd cofio

2.2 Athrawon:

- Bod yn gyfarwydd â'r polisi
- Addysgu disgyblion i wybod am golled a phrofedigaeth
- Cefnogi disgyblion yn yr ysgol sydd wedi profi colled a phrofedigaeth
- Cysylltu â'r Pennaeth / a'r rhieni
- Ceisio cefnogaeth iddynt eu hunain, os oes angen

3) Cwricwlwm

- 3.1 Addysgir disgyblion i wybod am golled, pa deimladau y gallent eu profi a sut y gallent ymdopi â cholled bersonol ac ymateb i golli eraill. Mae ein haddysgu yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r egwyddorion a nodwyd uchod a defnyddir amrywiaeth o ddulliau i ddiwallu anghenion ein disgyblion, gan ddangos sensitifrwydd i'w hoedran a'u profiad. Cydweithiwr gyda Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn i drefnu ymyraethau a gweithgareddau penodol lle bo angen.

3.2 Bydd y dulliau addysgu a fabwysiadwyd yn yr ystafell ddosbarth yn cynnwys:

- Amrywiaeth o arddulliau addysgu a dysgu gan gynnwys trafodaethau unigol a grŵp, chwarae rôl a drama
- Defnyddio adnoddau ategol fel straeon, ffotograffau, cerddoriaeth a chofroddion

- Rhoi gwybodaeth glir, wir a chywir, heb geisio meddalu'r ergyd gydag iaith annelwig nad yw'n dweud y gwir
- Ymarfer y sgiliau cymdeithasol cydweithredol sy'n angenrheidiol i helpu i ymdopi â'r teimladau o golled
- Rhoi cyngor a chefnogaeth berthnasol a phriodol
- Darparu parhad a dilyniant trwy ymweld ac ail-ymweld â materion wrth i ddisgyblion ddatblygu ac fel mae eu hanghenion a'u dealltwriaeth yn newid
- Ystyried agweddau a gwerthoedd disgyblion

4) Gweithdrefnau

4.1 RHESTR WIRIO WRTH DDELIO GYDA MARWOLAETH DISGYBL, STAFF NEU AELOD O’R GYMUNED

Rhif	Trefn Gweithredu	✓
1	Pennaeth i dderbyn gwybodaeth ffeithiol am y farwolaeth.	
2	Pennaeth/Uwch Dim Rheoli i hysbysu Pennaeth Addysg y Sir.	
3	Pennaeth i roi cyfarwyddyd i’r staff a rhannu gwybodaeth ffeithiol.	
4	Os yw’r Heddlu yn ymwneud â’r farwolaeth, bydd y Pennaeth i ddilyn eu cyngor ynglŷn â rhyddhau gwybodaeth.	
5	Pennaeth/Pennaeth Blwyddyn i gysylltu gyda’r teulu i gydymdeimlo ac iystyried dymuniadau’r teulu am ba wybodaeth hoffent i’r ysgol rannu .	
6	Rhannu gwybodaeth ffeithiol gyda’r disgyblion mewn grwpiau blwyddyn/dosbarth/cofrestru A/NEU anfon llythyr adref i rieni os oes angen. O.N. mae’n debygol bydd gwybodaeth gan rai disgyblion yn sgil y cyfryngau cymdeithasol.	
7	Sefydlu sustem cefnogaeth ysgol e.e. ystafell dawel, llyfr cydymdeimlo/ goleuo kannwyll/cerdyn ac ysgrifennu llythyrau gan staff a disgyblion. Gofynnwch i’r disgyblon am eu syniadau. Gweler y gwefannau defnyddiol uchod.	
8	Adnabod disgyblion a staff sydd angen cymorth. Cysylltu gydag asiantaethaueraill am gefnogaeth fel uchod. Gweithredu sustem gynhaliaeth yr ysgol.	
9	Penderfynu fel sy’n briodol ar drefniadau’r Ysgol ar gyfer diwrnod yr angladd (neu angladdau os oes mwy wsanag un farwolaeth) NEU trefnwch wasanaeth yn yrysgol.	
10	Staff yr ysgol i hybu/arwain trafodaeth o’r digwyddiad yn ystod y dyddiau/ wythnosau sy’n dilyn. Targedu disgyblion sydd wedi eu heffeithio mwyaf o’r digwyddiad.	
11	Ystyried cynnal gwasanaeth coffau ysgol gyfan a/neu ddewis ffurf arall o goffau e.e. plannu coeden/gosod mainc/cwpan gwobrwyo neu gyfraniad ielusen o ddewis y teulu. Mae’n holl bwysig ystyried dymuniadau’r teulu.	

12	Pennaeth i sicrhau parhad cefnogaeth i bawb sydd wedi eu cynnwys/effeithiofel bo'r angen. Efallai bydd hyn dros gyfnod o fisoedd/blynyddoedd. Byddwchyn ymwybodol o ddyddiadau arwyddocaol.	
----	---	--

4.2) Yr Angladd

Bydd ein hysgol yn:

- Darganfod dymuniadau'r teulu ac a / sut maen nhw'n dymuno i'r ysgol gymryd rhan
- Nodi pa staff a disgyblion a allai fod eisiau eu mynychu ac ymarferoldeb materion fel staff a chludiant
- Anfon blodau / cardiau, os yw'n dderbyniol
- Ystyried y goblygiadau diwylliannol a chrefyddol, os yw'n briodol
- Galluogi'r unigolyn / unigolion a oedd â'r berthynas agosaf â'r disgybl i fynychu'r angladd, neu yn aelod o staff a oedd wedi gweithio'n agos gyda'r disgybl mewn dosbarth arall

5) Cefnogaeth i ddisgyblion mewn profedigaeth:

CEFNOGI DISGYBL SY’N GALARU YN YR YSGOL:

Rhif	Trefn Gweithredu	✓
1	Pennu aelod staff fydd yn cefnogi’r disgybl wrth ddychwelyd i’r ysgol.	
2	Cynllunio sustem cefnogi gyda’r disgybl e.e. amser allan, ystafell dawel, mynediad at ffonio adref.	
3	Trefnu cefnogaeth asiantaethau os oes angen (i’r disgybl a’r staff) Fel yr uchod.	
4	Pennu aelod staff i fonitro’r disgybl sy’n galaru yn ystod ei yrfa ysgol gan nodi dyddiadau arwyddocaol megis blwyddyn wedi’r farwolaeth, Sul y Mamau/Tadau. Cofio pasio’r wybodaeth yma ymlaen i ysgol ddilynol.	
5	Parhau i gysylltu gyda’r asiantaethau cefnogi – hyd yn oed misoedd/ blynyddoedd wedi’r farwolaeth, os oes angen.	

- 5.1 Ni fydd angen cefnogaeth ymarferwyr arbenigol ar bob disgybl a pherson ifanc; yn aml mae angen pobl gyfarwydd sy’n gofalu arnyn nhw. Bydd disgyblion yn ymateb i brofedigaeth / colled mewn sawl ffordd; nid oes dau ymateb yr un peth. Bydd personoliaeth, cefnogaeth deuluol a phrofiadau bywyd i gyd yn effeithio ar ymatebion disgyblion.
- 5.2 Yn aml mae oedolion yn dymuno cysgodi disgyblion rhag poen a thrallod. Mae profiad ac ymchwil wedi dangos, fodd bynnag, mai'r ffordd orau o gefnogi disgyblion yw trwy gydnabod y digwyddiad mewn ffordd briodol, yn hytrach na chael ei anwybyddu.
- 5.3 Mae'n bwysig bod ar gael ac yn barod i dderbyn disgyblion, i wrando arnynt, i ddangos empathi â nhw a normaleiddio eu hemosiynau, a thrwy hynny alluogi datblygu strategaethau ymdopi iach.
- 5.4 Mae'n arferol i oedolion fod yn ofidus a gall fod yn briodol i blant a phobl ifanc fod yn ymwybodol o hyn oherwydd gall eu helpu i ddeall eu hemosiynau eu hunain. Gall staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion ddangos eu bod wedi cynhyrfu, ond heb fod allan o reolaeth. Mae'n bwysig cynnal amgylchedd

diogel, rhagweladwy i'r disgyblion sydd dan eu gofal. Dylai staff gofio eu bod yn modelu ymateb i blant a phobl ifanc ac yn eu helpu i ddatblygu sgiliau ymdopi.

- 5.5 Ni ddylid tanamcangyfrif yr effaith gadarnhaol y gall pryder a chefnogaeth oedolyn gofalgarn, cyfarwydd ei chael ar fyfyrwr.

6) Effeithiau Sylfaenol:

6.1 Gall yr ymatebion cyntaf i brofedigaeth neu golled fod:

- Anghrediniaeth
- Dicter
- Panig
- Pryder
- Ofn
- Llefain
- Siarad: ailadrodd yr hyn maen nhw wedi'i brofi / clywed
- Anallu i brosesu gwybodaeth yn dda (ac felly nid ydyn nhw'n clywed / derbyn yr hyn sydd wedi digwydd na'r hyn a ddywedwyd wrthyn nhw)
- Atchweliad: rydyn ni i gyd yn atchweliad pan glywn newyddion drwg. Rydyn ni am gael gofal a gwarchodaeth
- Tristwch
- Tynnu'n ôl
- Ymosodol

7) Effeithiau Eilaidd

- 7.1 Yn gysylltiedig â'r Effeithiau Sylfaenol uchod ceir Effeithiau Eilaidd y dylai athrawon fod yn ymwybodol ohonynt:

- Newid ymddygiad
- Newid mewn grwpiau cymheiriaid
- Colli cymhelliant
- Diffyg cyflawniad
- Hylendid gwael
- Newid yn rôl y teulu
- Effeithiau ar berthnasoddd

- 7.2 Mae staff yn ymwybodol y gallai galar gael ei oedi neu y gallant ail-ymddangos flynyddoedd yn ddiweddarach. Gall teimladau ac anghenion disgyblion mewn profedigaeth amrywio. Mae rhai disgyblion yn gweld yr ysgol fel hafan heddwch a normalrwydd mewn cyferbyniad â'r trawma gartref. I'r gwrthwyneb, efallai y bydd disgyblion eraill yn gweld mai'r ysgol yw'r lle i fynegi eu teimladau.

7.3 Dylai staff fod yn effro i:

- Newidiadau mewn ymddygiad
- Newid mewn hwyliau
- Hunan-barch isel
- Symptomau seicosomatig - cur pen, poenau stumog
- Ansicrwydd, teimlo'n ddiangen, anawsterau cyfeillgarwch

- Iselder
- Ynysu a thynnu'n ôl

8) Ymatebion Defnyddiol gan Staff:

8.1 Mae yna nifer o ymatebion defnyddiol i staff fynd i'r afael â phrofedigaeth:

- Cydnabod y digwyddiad i ddisgyblion, mewn ffordd gyfrinachol, gan adael iddynt wybod eich bod ar gael i'w helpu a'u cefnogi
- Byddwch yn barod i wrando a rhoi amser iddyn nhw
- Byddwch yn barod i ateb cwestiynau (nid yw'n bwysig bod staff yn ateb pob cwestiwn ond eu bod yn gwrandao ar ofnau a phryderon disgyblion ac yn cymryd eu hymholiadau o ddifrif)
- Bod yn ddilys ac yn broffesiynol
- Bod yn anfeirniadol
- Rhowch wybodaeth iddynt gan gynnwys 'normaleiddio' eu hymatebion (h.y. mae eu hymatebion yn adweithiau arferol)
- Annog disgyblion i siarad, rhannu eu teimladau a cheisio cymorth fel sy'n briodol
- Cynnal trefn yn yr ysgol (hyblyg, gofalgarg a chynnwys)
- Cynnig sensitifrwydd, gofal ac empathi

9) Cynnig Ysgol:

Bydd ein hysgol yn cynnig:

- Trefn arferol, a all gael effaith sefydlogi
- Llecyn hafan, i ffwrdd o awyrgylch emosiynol dwys
- Gofod niwtral a phobl i rannu eu teimladau heb boeni cynhyrfu rhywun annwyl iddynt
- Amser i'r disgyblion fod yn nhw eu hunain heb deimlo'n euog (bod gyda ffrindiau, amser i chwarae mewn man diogel y tu allan i amgylchedd y cartref)
- Gohebiaeth reolaidd â'r cartref, gan roi sicrwydd am ymddygiad a lles cyffredinol, gan sicrhau bod y disgybl neu'r person ifanc yn rheoli eu galar
- Mynediad at adnoddau priodol trwy'r athro dosbarth/ arweinydd cyswllt
- Amser paratoi i ddisgyblion drafod beth i'w ddweud a sut i ymddwyn pan fydd y disgybl neu'r person ifanc mewn profedigaeth yn dychwelyd i'r ysgol
- Amser i staff fod yn ymwybodol o newidiadau mewn ymddygiad a allai fod yn gysylltiedig â'r farwolaeth
- Unigolyn cyswllt i gefnogi'r disgyblion pan fo angen
- Lle addas yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd angen rhywfaint o le os ydynt yn rhy ofidus i aros yn yr ystafell ddosbarth a phobl y gallant fynd am gefnogaeth iddynt.

9.1 Cefnogaeth i Staff:

Bydd ein hysgol yn:

- Cefnogi staff mewn profedigaeth a chydabod y gallent fod yn cael trafferth â'u hymatebion a'u hemosiynau eu hunain wrth gefnogi disgyblion
- Cynllunio ar gyfer cyd-gefnogaeth anffurfiol i roi cyfle i staff rannu teimladau ac ymatebion
- Rhoi amser i bobl fynychu'r angladd, os yw'n briodol
- Cynnig hyfforddiant cyffredinol i'r holl staff
- Bod yn ymwybodol o'r holl wybodaeth ategol ac adnoddau sydd ar gael

9.2 Cefnogaeth i Rieni/Gofalwyr:

Bydd ein hysgol yn:

- Cyfathrebu â'r teulu ar unwaith a chynnig cefnogaeth
- Anfon llythyr / cerdyn cydymdeimlad
- Dosbarthu gwybodaeth i bobl briodol yn dibynnu ar ddymuniadau'r teulu
- Rhoi cyfle i rieni a theulu gasglu unrhyw eiddo personol yr unigolyn sydd wedi marw
- Anfon cynrychiolydd i'r angladd os yw'n briodol
- Cynnal casgliad / blodau i'w hanfon fel sy'n briodol
- Gwahodd rhieni / gofalwyr i unrhyw ddigwyddiadau coffa a gynhelir gan yr ysgol

9.3 Cydnabyddiaethau:

Bydd ein hysgol yn rhoi'r cyfleoedd canlynol i gofio colled i rieni / gofalwyr, staff a disgyblion:

- Cynnal gwasanaeth dathlu / gweithgaredd coffa arall yn unol â dymuniadau'r teulu
- Cynnig cefnogaeth i unigolion sy'n dymuno siarad am eu profiadau
- Cynnig cefnogaeth i ddisgyblion sydd angen archwilio a dysgu deall eu hemosiynau
- Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion siarad o fewn grŵp am eu profiadau

9.4 Gweithdrefnau yn ymwneud â marwolaeth aelod o staff:

Bydd ein hysgol yn:

- Rhoi gwybodaeth i Lywodraethwyr, Staff, Disgyblion a Rhieni;
- Rhoi gwybodaeth i staff absennol;
- Mae'r pennaeth yn gwneud datganiad newyddion, os oes angen;
- Trefnu cydymdeimlad staff / disgyblion;
- Mae'r aelod o'r UDRh yn trefnu cefnogaeth i aelodau staff unigol / grŵp;
- Cysylltu â Gwasanaethau Awdurdod Lleol sydd yn gallu cefnogi disgyblion a staff.

Bydd cynlluniau ar gyfer;

- Mynegiant teimladau;
- Eiddo personol;
- Cerdyn / torch flodau;
- Rhybudd marwolaeth mewn papur newydd lleol;
- Gwasanaethau;
- Angladd;
- Coffáu.

9.5 Gweithdrefnau yn ymwneud â marwolaeth Rhiant/ Gofalwr:

Bydd ein hysgol yn:

- Cyfleu gwybodaeth i staff, disgyblion
- Gwneud trefniadau ar gyfer mynegi cydymdeimlad
- Ymweliad personol
- Cerdyn cydymdeimlad
- Mynychu angladd

9.6 Gweithdrefnau ar gyfer cefnogi disgybl sy'n dychwelyd i'r Ysgol:

Beth yw anghenion disgybl mewn profedigaeth?

- Cyfeillgarwch
- Cefnogaeth
- Deall
- Siarad a gwranddo
- Sicrwydd
- Cynnydd mewn hunan-barch
- Lliniaru unigedd
- Trefn arferol
- Gofod addas
- Amser i fynegi teimladau, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny

9.7 Salwch Tymor Hir:

Bydd ein hysgol yn:

- Dynodi un person i gysylltu â'r teulu ac i ddarganfod eu dymuniadau am staff sy'n ymweld
- Sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau heb beri gofid i'r teulu
- Rhoi gwybod i staff am ddymuniadau'r teulu
- Cefnogi cymuned yr ysgol gyda gwybodaeth a chefnogaeth gywir

10) Gweithdrefnau ar gyfer cefnogi disgybl pan fo rhieni/gofalwyr wedi gwahanu /ysgaru:

Mae'n cymryd amser hir i ddisgyblion addasu i wahaniad / ysgariad eu rhieni ac nid yw'n ffordd esmwyth fel rheol, ond po fwyaf o gyfleoedd y mae'n rhaid i blant fynegi a deall eu teimladau, yr hawsaf fydd y trawsnewid hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd rhai disgyblion yn dymuno siarad, a rhaid parchu hyn hefyd.

- Bod yn sensitif tuag at y disgybl a'i rieni
- Cydnabod colled y disgybl yn breifat a'u sicrhau o'ch cefnogaeth a'ch argaeledd
- Rhoi gwybod i'r staff angenrheidiol mewn modd cyfrinachol
- Cynllunio i sicrhau bod y ddau riant/gwarchodwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu disgybl, os yn bosibl
- Mynd i'r afael â materion colled trwy weithgareddau AbaCH ac ymyrraeth fugeiliol.

11) Cyfrinachedd:

Er ei bod yn bwysig cynnal cyfrinachedd trwy gydol y broses o drin gydag unrhyw ddigwyddiad neu ddatgeliad, bydd disgyblion yn ymwybodol na ellir gwarantu cyfrinachedd llwyr mewn rhai amgylchiadau. Bydd hyn yn helpu i gadw ymddiriedaeth disgyblion a rhieni/gofalwyr a bydd yn sicrhau bod rhannu gwybodaeth briodol yn cael ei gadw i'r lleiafswm. Dim ond yn fewnol neu'n allanol y mae gwybodaeth sensitif yn cael ei ddatgelu gan roi sylw gofalus i hawliau ac anghenion unigolion. Pan fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol mae'n bwysig trafod gyda nhw os ydynt am i rai pobl y meint yn dod i gysylltiad â nhw gael eu hysbysu, fel arweinwyr clybiau ar ôl ysgol.

12) Cynhwysiant a Chydraddoldeb:

Mae ein hysgol yn cydnabod bod ystod o arferion a gweithdrefnau diwylliannol a chrefyddol yn ymwneud â marwolaeth ac y gallai fod disgwyliadau gwahanol i'r disgybl a'r teulu mewn profedigaeth. Byddwn yn ceisio cyflwyno cydbwysedd o wahanol ddulliau o farw a cholled. Gwneir disgyblion a staff yn ymwybodol bod yna ystod o ymatebion gwahanol i brofedigaeth a bod angen i ni werthfawrogi a pharchu pob un o'r rhain.

13) Ymateb i'r Cyfryngau:

Gall rhai digwyddiadau a marwolaethau, yn enwedig y rhai mewn amgylchiadau sydyn neu drawmatig, ddenu sylw'r cyfryngau. Cynghorir pob aelod o staff i beidio ag ymateb i newyddiadurwyr a chyfeirio pob ymholiad at y pennaeth, a fydd yn ymateb yn ofalus ar ôl ceisio cymorth gan Swyddfa Gyfathrebu'r Awdurdod Addysg. Rhoddir cyngor i ddisgyblion.

14) Cymorth a Hyfforddiant Staff:

Mae'n bwysig bod yr holl staff yn teimlo'n hyderus wrth ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion a chyd-gefnogaeth i'w gilydd. Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth profedigaeth yn cael ei ddarparu i'r holl staff. Byddwn yn sicrhau bod aelodau staff yn diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth yn ôl yr angen.

15) Monitro a Gwerthuso:

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn, i ystyried unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau yn y Canllawiau Statudol ac ar ôl digwyddiad. Bydd unrhyw newidiadau a wneir yn cael eu rhannu gyda'r staff a'r Corff Llywodraethol.

16) Cysylltiadau â Pholisïau Eraill:

Polisi Gwrth-fwlio, Polisi Diogelu Plant, Polisi Ymddygiad, Polisi Presenoldeb, Polisi Iechyd a Diogelwch.

17) Gwybodaeth a Ffynonellau Cymorth

Cysylltiadau/Asiantaethau:

Cyswllt:	Rhif ffôn:	E-bost:
Pennaeth Addysg	01286 679467	garemjackson@gwynedd.llyw.cymru
Prif Swyddog Lles Addysg	01286 679007	meinirbolton@gwynedd.llyw.cymru
Gwasanaeth Seicolegol Addysg	01286 679007	ionarees@gwynedd.llyw.cymru
Gwasanaeth Cwnsela’r Sir i Staff	01286 679007	dorawendiJones@gwynedd.llyw.cymru
Swyddfa’r Wasg Cyngor Gwynedd	01286 679 310	siongwynfrynwilliams@gwynedd.gov.uk

Gwefannau defnyddiol:

- Gwasanaeth Llyfrgell y Sir – llyfrgell@gwynedd.gov.uk (llyfrau amrywiol addas am farwolaeth i wahanol oedrannau)
- www.Winstonswish.org.uk adrannau i gefnogi athrawon ac ysgolion gyda chynghor ymarferol.
- www.childbereavement.org.uk
- www.cruse.org.uk/wales
- [Seasons for growth](#)